Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# i

# ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg'

## Medi 2016

Am ragor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:
Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FL
02920 445030

## Am y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan. Mae hi'n gweithio i sicrhau bod y rheini sydd yn agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan yr holl bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yr hyn mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddyn nhw sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth mae hi'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn:

- Yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

## Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1. Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rydw i'n croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg[1].

2. Mae bron i 800,000 o bobl 60 oed ac yn hŷn yng Nghymru, dros chwarter y boblogaeth. Dros yr ugain mlynedd nesaf, disgwylir i'r ffigwr hwn godi i dros filiwn o bobl. Mae gan bobl hŷn gyfoeth o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, ac o gael cymorth digonol a seilwaith ddigonol sy'n cynnwys manteisio ar addysg a dysgu gydol oes, mae modd iddynt wneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas ac i'r economi.

Hoffwn amlygu dau faes i'r Pwyllgor.

### Y cyfle i bobl hŷn fanteisio ar gyfleoedd dysgu: Dysgu Cymunedol / Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3. Mae dysgu gydol oes yn rhan hanfodol o'r ymdrechion wrth helpu pobl hŷn i fyw bywydau iach ac annibynnol. Mae'n cynnig cyfleoedd iddynt barhau i fod yn weithgar ac i gymryd rhan mewn cymdeithas, yn ogystal ag osgoi effeithiau negyddol allgáu digidol. Cydnabuwyd pwysigrwydd addysg i bobl hŷn yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sy'n cynnwys yr hawl i bobl hŷn fanteisio ar raglenni addysgol a hyfforddiant priodol[2], ac yn Natganiad Llywodraeth Cymru o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru, sy'n amlygu hawl pobl hŷn i "barhau i ddysgu, datblygu a thyfu"[3].

4. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd dysgu gydol oes i bobl hŷn, dim ond 1 o bob 20 dysgwr sy'n cael addysg bellach neu addysg gymunedol sy'n 65 oed neu'n hŷn, ac mae nifer y bobl hŷn sy'n cymryd rhan wedi bod yn gostwng gymaint â thraean er 2005/06[4].

5. Mae'r cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (ACL) wedi gostwng yn sylweddol hefyd (gymaint â 37.5% yng nghyllideb

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2016): Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg http://www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?ID=214

[2] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Egwyddorion CU. http://www.olderpeoplewales.com/en/about/UN-principles.aspx

[3] Llywodraeth Cymru (2014) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru http://gov.wales/docs/dhss/publications/140716olderen.pdf

[4] Cynghrair Henoed Cymru (2012) Cymru: Lle Da i Fynd yn Hŷn? http://www.agealliancewales.org.uk/wales-a-good-place-to-grow-old

2014/15 yn unig), ac mae'r cyllidebau ar gyfer addysg bellach rhan-amser wedi cael eu gostwng gymaint â thraean[5]. Bydd graddfa'r gostyngiadau hyn yn golygu y bydd llai o gyfleoedd ar gael i bobl hŷn ddysgu sgiliau newydd, i gyfrannu at dwf economaidd ac i gael budd gan fanteision iechyd a lles, cydlyniant cymunedol a symudedd cymdeithasol. Gan bod dysgwyr ACL yn cynnwys gor-gynrychiolaeth o bobl hŷn, bydd y gostyngiadau i gyllidebau dysgu cymunedol yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn.

6. Os bydd y cyllid ar gyfer dysgu gydol oes yn parhau i ddilyn y duedd hon, bydd pris uchel i'w dalu am fethu buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu i bobl hŷn, gydag angen cynyddol i gadw pobl hŷn yn y gweithlu a'u dwyn yn ôl i fyd gwaith hefyd.

**7.** Mae cyfleoedd dysgu gydol oes yn bwysig i bobl hŷn sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ar gyfer byd gwaith, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno parhau i fod yn gyfranogwyr gweithgar mewn cymdeithas ar ôl iddynt ymddeol. Am y rhesymau hyn, mae sicrhau bod cyfleoedd gwell i bobl hŷn fanteisio ar gyfleoedd dysgu a sgiliau yn elfen y rhoddir blaenoriaeth iddi yn rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru[6], ac mae'n cyfrannu at y dull gweithredu ataliol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a welir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno asesu effaith y gostyngiadau ariannol ym maes dysgu cymunedol a dysgu rhan-amser a welwyd yn ystod y Cynulliad diwethaf ar y cyfleodd hyn i bobl hŷn.

**Effaith penderfyniadau cyllido ar bobl 50+ oed sy'n cychwyn ar gyrsiau addysg bellach neu uwch**

8. Mae'r cyfle i fanteisio ar addysg bellach ac uwch yn hanfodol i bobl hŷn am sawl rheswm. Gan bod nifer gynyddol o bobl hŷn yn methu fforddio ymddeol a bod angen iddynt weithio am gyfnod hwy, mae cyfleoedd addysg uwch ac addysg bellach yn hanfodol er mwyn uwchsgilio neu ailsgilio pobl hŷn er mwyn iddynt aros yn y farchnad lafur neu ailymuno â hi a gwella'u cyflogadwyedd.

9. Yn ogystal â bod o fudd i'w hunain, mae modd i bobl hŷn wneud cyfraniad mawr i golegau a phrifysgolion, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac mae modd iddynt ysbrydoli,

[5] BBC Wales News (2014) Beirniadaeth o'r toriadau i gyllidebau dysgu oedolion yng Nghymru http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-25755799
[6] Heneiddio'n Dda yng Nghymru http://www.ageingwellinwales.com/en/home

cynghori a gweithio gyda myfyrwyr iau fel mentoriaid trwy eu cyfoeth sylweddol o wybodaeth a phrofiad.

10. Fodd bynnag, ar adeg pan y dylid bod yn annog pobl hŷn i fanteisio ar addysg bellach ac uwch, mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran yr oedolion hŷn sy'n ymgysylltu â dysgu ac sy'n astudio mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion wedi haneru o 35% i 17% yn unig rhwng 2005 a 2012[7].

11. Mae effaith gostyngiadau i'r gyllideb addysg bellach wedi bod yn arbennig o niweidiol i bobl hŷn. Rhwng 2006/7 a 2010/11, mewn cyrsiau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd nifer y bobl hŷn (50+) yr oeddent yn cymryd rhan yn gostwng 32%, ddwywaith yn fwy nag ar gyfer oedolion yn gyffredinol. Rhwng 2003/4 a 2011/12, bu gostyngiad o 43% yn niferoedd y dysgwyr yr oeddent yn cael eu cynorthwyo gan gyllid Llywodraeth Cymru hefyd. Dros yr un cyfnod, bu gostyngiad o 20% yng nghyfran y dysgwyr dros 50 oed mewn darpariaeth addysg bellach[8].

12. Mewn addysg uwch, mae'n anodd mesur cyfraddau cyfranogi pobl dros 60 oed. Dim ond dysgwyr dan 59 oed y mae adroddiadau presennol CCAUC ynghylch cyfraddau cyfranogi mewn addysg uwch yng Nghymru yn eu cynnwys, ac mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gael gwybodaeth fanwl am gyfranogiad pobl hŷn mewn addysg uwch[9]. Er bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn weithgar ar wahanol lefelau ym maes ehangu'r mynediad i bobl hŷn trwy eu cynlluniau ffioedd[10], mae modd gwneud mwy er mwyn cynorthwyo ac annog pobl hŷn i fanteisio ar addysg uwch, er mwyn eu galluogi i barhau i ddysgu a datblygu eu sgiliau.

13. Dylai fod modd i bobl hŷn fanteisio ar yr un cyfleoedd i gael addysg uwch ag y mae gan bawb arall. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried sut y mae penderfyniadau cyllido a wneir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyllidebau ar gyfer addysg bellach ac uwch, yn enwedig er mwyn cynorthwyo dysgu rhan-amser, wedi effeithio ar y cyfleoedd i bobl hŷn fanteisio ar addysg bellach ac uwch, ac o hynny ymlaen ar ansawdd eu bywyd a'u rhagolygon cyflogaeth.

---

[7] Wales Online (2012) Llai o bobl hŷn yn mynd i'r coleg, ond mwy yn dysgu ar-lein http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/fewer-older-people-going-college-2019163

[8] Stats Cymru https://statswales.wales.gov.uk/Search?Query=llwr

[9] CCAUC (2013) Cyfraddau cyfranogiad ar gyfer myfyrwyr Cymreig mewn addysg uwch yn y DU yn ystod 2012/13 http://www.hefcw.ac.uk/about_he_in_wales/statistics/participation_rates.aspx

[10] WISERD (2015) Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru: Adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru http://wiserd.ac.uk/files/4014/4257/0990/WISERD_-_Access_to_Higher_Education_F1.pdf

14. Mawr obeithiaf y bydd y materion hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor ac eraill ar y materion hyn dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.